# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2002

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

Y Dirprwy Lywydd oedd yn y Gadair

Gwnaeth y Dirprwy Lywydd ddatganiad ynghylch absenoldeb y Llywydd ac atgoffodd Aelodau hefyd y byddai'r cyfarfod llawn yn dechrau am 1.15pm ddydd Iau, 13 Mehefin.

**2.01pm**
Cynigiodd y **Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad** gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio cwestiynau i'r Prif Weinidog tan eitem olaf busnes heddiw

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 21
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**2.03pm**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.04pm**
**Cynnig Cyfansawdd**
*NDM1073 -* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. **Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mai 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2002

2. **Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2002

*Ni chafwyd dadl ar y cynnig hwn a chynhaliwyd pleidlais yn syth:*
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 25
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.05pm**
**Adolygu'r Rheolau Sefydlog yn dilyn yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad - Rhan 1**
***NDM1074* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 34:**

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30/5/02;

ii. yn cymeradwyo'r diwygiadau a ganlyn i'r Rheolau Sefydlog;

iii. yn penderfynu bod y diwygiadau yn dod i rym yn syth:

**Cadeirydd Dros Dro**

Ar ôl Rheol Sefydlog 1.10 ychwanegu:

1.10A Gall unrhyw aelod, ac eithrio aelod o Gabinet y Cynulliad, ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd pan fo'r naill neu'r llall yn y gadair, ymddwyn fel cadeirydd dros dro mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad am ddim mwy na chwarter awr ar unrhyw un achlysur; ond ni fydd cadeirydd dros dro yn arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Llywydd neu'r Dirprwy ac eithrio'r rheini sy'n angenrheidiol er mwyn cadw trefn yn y cyfarfodydd llawn.

Dileu Rheol Sefydlog 1.11 a rhoi

1.11 Os na fydd y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd ar gael am y tro i wasanaethu (ac eithrio o dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog 1.10A), y Clerc fydd yn cymryd y gadair a hynny dim ond er mwyn trefnu bod Aelod yn cael ei ethol i gyflawni dyletswyddau'r Llywydd nes bod un ai'r Llywydd neu'r Dirprwy ar gael.

**Ethol Pwyllgorau**

Ar ôl Rheol Sefydlog 8.4 ychwanegu:

8.4A Pan fo mwy nag un cynnig o dan baragraff 8.4 i'w hystyried mewn unrhyw gyfarfod, gall y

Llywydd ofyn am ganiatâd y Cynulliad i bleidleisio ar y cynigion i gyd gyda'i gilydd, ac os rhoddir caniatâd, nid fydd paragraffau 8.5 ac 8.6 yn berthnasol a phleidleisir ar y cynigion gyda'i gilydd yn syth heb gynnal dadl. Ystyrir nad yw'r Cynulliad wedi rhoi'i ganiatâd os bydd un Aelod yn gwrthwynebu.

**Cynigion mewn Cyfarfod Llawn sy'n cyfeirio at Adroddiadau Pwyllgorau Pwnc**

Dileu brawddeg olaf Rheol Sefydlog 6.5

Ychwanegu paragraff newydd 6.13A

"Pan fo cynnig ond yn argymell bod y Cynulliad yn nodi adroddiad a gyflwynwyd gan bwyllgor pwnc, ni ellir cyflwyno newidiadau i'r cynnig hwnnw."

**Y Teitlau Prif Weinidog, Gweinidog, Trefnydd a Gweinidog Cyllid**

1. Yn Adran "Dehongli" y Rheolau Sefydlog, ar gyfer y diffiniadau canlynol:

Gosod ystyr "Trefnydd" yw'r aelod o Gabinet y Cynulliad a ddynodir, yn unol â pharagraff 2.5, i arddel cyfrifoldeb penodol dros reoli busnes y Cynulliad; yn lle "Trefnydd"

Gosod ystyr "Gweinidog" yw aelod o Gabinet y Cynulliad (gan gynnwys y Prif Weinidog); yn lle "Ysgrifennydd Cynulliad"

Gosod ystyr "Gweinidog Cyllid" yw’r aelod o Gabinet y Cynulliad a ddynodir, yn unol â pharagraff 2.5, i arddel cyfrifoldeb penodol dros gyllid y Cynulliad; yn lle "Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad"; a

Gosod ystyr "Prif Weinidog" yw’r Aelod a etholir o dan adran 53(1) o’r Ddeddf; yn lle "Prif Ysgrifennydd".

2. Pan fydd:

(a) "Prif Ysgrifennydd" yn ymddangos yn y Rheolau Sefydlog, gosod "Prif Weinidog" yn ei le;

(b) "Ysgrifennydd Cynulliad" neu "Ysgrifenyddion Cynulliad" yn ymddangos yn y Rheolau Sefydlog, gosod "Gweinidog" neu "Gweinidogion" fel y bo’n briodol.

(c) "Trefnydd" yn ymddangos yn y Rheolau Sefydlog, gosod "Trefnydd" yn ei le.

(d) "Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad" yn ymddangos yn y Rheolau Sefydlog, gosod "Gweinidog

Cyllid" yn ei le.

3. Yn nhudalen gynnwys y Rheolau Sefydlog, dileu "Prif Ysgrifennydd" a gosod "Prif Weinidog" yn ei le.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 26
**Derbyniwyd y cynnig gyda'r mwyafrif gofynnol o 2/3**

**2.06pm**
**Cymeradwyo newid i lwfansau er mwyn gwella diogelwch mewn swyddfeydd rhanbarthol**
*NDM1065* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 16 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 3.1, yn penderfynu y bydd lwfans ar gael ar gyfer unrhyw swm o fwy na £2,000 sy'n cael ei wario gan yr Aelodau mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar fesurau diogelwch y mae'r Aelodau'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn eu diogelu eu hunain, eu staff, yr offer sydd ganddynt yn eu hetholaethau ac yn eu swyddfeydd, os yw'r heddlu wedi argymell mesurau diogelwch o'r fath. Rhaid i argymhellion o'r fath fod yn rhai ysgrifenedig a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ynghyd ag o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol sy'n nodi cost gwneud gwaith o'r fath cyn i unrhyw symiau gael eu gwario.

Gofynnodd mwy na 3 Aelod i'r gloch gael ei chanu yn unol â Rheol Sefydlog 6.21.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig gyda'r mwyafrif gofynnol o 2/3**

**2.14pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 15 cwestiwn. Ni ofynnwyd cwestiwn 7. Tynnwyd cwestiynau 1, 3 ,10 a 14 yn ôl. Bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei baratoi ar gyfer cwestiwn 11.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.43pm

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**1.15 pm ddydd Iau, 13 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**